Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

11Chwefror

9.30- 12.30

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y MESUR TRAIS YN Y CARTREF, TROSEDDU A DIODDEFWYR - PAPUR Y GWEINIDOG

Diben

Rhoi gwybodaeth am y darpariaethau sydd yn y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddu a Dioddefwyr, a gyflwynwyd gerbron Ty'r Arglwyddi yn ddiweddar.

Crynodeb/Argymhellion

Mae'r Mesur Trais yn y Cartref, Troseddu a Dioddefwyr yn cyflwyno'r newidiadau mwyaf i'r gyfraith sy'n ymwneud â thrais yn y cartref ers 30 mlynedd. Rhoddir pwerau llym i'r heddlu a'r llysoedd er mwyn amddiffyn dioddefwyr ac erlyn y sawl sy'n eu cam-drin. Hefyd, ceir darpariaethau yn y Mesur a fydd yn rhoi mwy o hawliau i ddioddefwyr, ac i dystion, gan sicrhau eu bod yn cael yr help, y gefnogaeth a'r amddiffyniad y mae eu hangen arnynt. Amlinellir yr amryfal fesurau sydd yn y Mesur isod. Bydd y Pwyllgor am nodi ac ystyried cynnwys y Mesur. Mae Atodiad A yn darparu mwy o wybodaeth fanwl am gynnwys y Mesur.

Y Cefndir

Ym mis Mehefin a mis Ionawr 2004, ysgrifennais at Aelodau'r Pwyllgor ynghylch mentrau'n ymwneud â thrais yn y cartref. Yn fy mhapur, o'r enw "Y Manylion Diweddaraf am Fentrau Trais yn y Cartref yng Nghymru," rhoddais wybodaeth am y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddu a Dioddefwyr.

Cyflwynwyd y Mesur hwn gerbron Ty'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr 2003.

Dyma brif elfennau'r Mesur:

- ei gwneud yn drosedd i dorri gorchymyn rhag molestu;
- rhoi'r un hawl i gyplau o'r un rhyw sy'n cyd-fyw â'i gilydd ofyn am orchymyn rhag molestu neu orchymyn meddiannu ag sydd gan gyplau heterorywiol;
- achosi neu ganiatáu marwolaeth plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed;
- gwneud cyplau nad ydynt erioed wedi cyd-fyw â'i gilydd nac wedi priodi yn gymwys i wneud cais am orchymyn rhag molestu a gorchymyn meddiannu;
- adolygiadau o lofruddiaethau'n deillio o drais yn y cartref;
- gwneud ymosod cyffredin yn drosedd arestiol;
- galluogi llysoedd i roi gorchmynion atal wrth ddedfrydu;
- galluogi'r llysoedd i roi gorchmynion atal pan geir rhyddfarniad am unrhyw drosedd (neu os caiff collfarn ei gwrthdroi ar ôl apelio) os ydynt yn ystyried bod angen amddiffyn y dioddefwr:
- rhoi hawl i unrhyw berson a enwir mewn gorchymyn atal gyflwyno sylwadau yn y llys os gwneir cais i amrywio neu i derfynu'r gorchymyn;
- Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr;
- Comisiynydd ar gyfer Dioddefwyr a Thystion;
- Datgelu gwybodaeth;
- Panel Cynghori Dioddefwyr;
- Grantiau ar gyfer cynorthwyo dioddefwyr, tystion ac ati.

Yr Amserlen

Cynhaliwyd ail ddarlleniad y Mesur ar 15 Rhagfyr 2003. Dechreuodd y pwyllgor yn Nhy'r Arglwyddi ei ystyried ar 19 Rhagfyr 2004. Ar hyn o bryd, mae'n anodd rhagweld pryd y bydd y Mesur yn cael Cydsyniad Brenhinol. Gallai hyn ddigwydd unrhyw adeg rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2004.

Mrs Edwina Hart

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio